

# The Dewi-Prys Thomas Prize 2003

Celebrating good design, and passion for good design, in the built environment in Wales

# The Great Glasshouse

National Botanic Garden, Middleton

The Dewi-Prys Thomas Prize is a triennial award recognising the importance of good design to the quality of life, identity and regeneration of Wales.

The new prize builds on the work of the Dewi-Prys Thomas Trust in celebrating the life of this inspirational teacher and advocate for Wales and the Welsh environment.

Dewi-Prys, who died in 1985, cared deeply about Wales and the Welsh environment and the prize seeks to capture this inspirational and passionate spirit.








a b c

a. The Great Glass House

b. *La Scala*

c. *Touchstone* Magazine

## **Winner** The Great Glasshouse

**The judges were unanimous in giving the first Dewi-Prys Thomas Prize to the Great Glasshouse at Middleton by Foster and Partners. They felt that the building, which forms the centrepiece of the National Botanic Garden of Wales, has tremendous appeal to both public and professional alike. Majestic and elegant, impactful and uplifting, stimulating, yet at the same time poetic and calming, the world's widest clear-span glasshouse has already achieved iconic status as a building of both national and international importance.**

The once derelict eighteenth-century garden of Middleton Hall has been replanned by landscape designer Colvin & Moggridge for a new future with new forms based on the local context. The beautiful structure nestles sensitively into the land so that its strong geometrical form seems merely to echo the soft rolling hills of Carmarthenshire. Internally, it sustains the promise of the external form. Here, the sculpted quarry-like landscape by Gustafson Porter houses Mediterranean habitats as a pleasure garden for general visitors and a source of study for experts.

Together, the architect and structural engineer Anthony Hunt Associates have produced an elegant structure that covers the garden in a deceptively simple manner.

Each of the arches, while uniform in section, is of a different span and alignment to fit in with the overall elliptical plan form of the building. The use of ball joint fixings neatly resolves the connections of the arches to the walls, which are bermed to the outside and strutted to the inside to provide a colonnade.

Detailing is straightforward, direct and assured. Ancillary spaces that do not require natural light, such as exhibition spaces and lavatories, are tucked under the external walls so as not to interfere with the discrete, daylight-filled space of the dome.

The design team, integrating architecture, engineering and landscape, has worked with skill and panache to produce a modern glasshouse that advances the great tradition of Paxton into another century.

## Commendations

### *La Scala*

**Artist Mark Pimlott and the engineer, the late Nick Hanika, created this project at the meeting point of sculpture and architecture in the piazza of the University of Wales, Aberystwyth, in response to a commission from Aberystwyth Arts Centre.**

*La Scala*, a monumental staircase angled towards the sea, can be used in many different ways - viewing platform, amphitheatre, loggia and meeting place.

The judges applaud the way in which the structure breathes new life into a public space and a series of buildings (Sir Percy Thomas's Library and Student Union and Dale Owen's Arts Centre) whose essential optimism and grandeur are reflected in the staircase with wit and poise.

*La Scala* draws on many traditions, including great renaissance public squares - persuasively presented by the designer in his proposal. But the structure also touches Welsh traditions, the 'cwtch dan stâr' - the space below the stairs has found a life too - as an impromptu bar.

*La Scala* demonstrates the way in which brilliantly conceived and executed projects can reach across the domains of architecture and public art - completing an important place in the Welsh built environment and carving out a unique identity.

### *Touchstone* magazine

**The judges agreed that since its inception in 1996, The Royal Society of Architects in Wales's magazine for architecture in Wales, *Touchstone*, has made a profound contribution to the promotion of better design and understanding of architecture and the environment.**

To date the editor, Patrick Hannay, and his dedicated team have produced twelve issues to a consistently excellent standard, yet always on a tight budget and with only unobtrusive advertising space. While the magazine promotes architecture, it has never been a marketing tool for the profession. *Touchstone* has not been afraid to tackle broader social and political issues in a way that has stimulated debate and effected a better understanding of the Welsh environment.

The high standard of its journalism and critical analysis is matched by excellent graphics. Often projects are explained through economic and elegant drawings, and photographs - better than many other journals that have more space and resources. An exemplary regional architecture magazine, *Touchstone* is invariably pertinent, literate and required reading for anyone concerned with the environment of Wales.







d e f

d. Brynmawr Rubber Factory Kiran Ridley

e.Llanelli Coastal Path

f. Rhyl Observatory

## **Judges'** report

**The first Dewi-Prys Thomas Prize attracted an impressive range of forty-two entries, all of which showed that, in the Welsh environment, design really matters.**

Entries varied from projects concerned with landscape, public art and architecture to journalism, writing and the contribution of individuals. As judges, we grouped entries together, so that we could compare like with like before undertaking the task of choosing an overall winner.

Wherever possible, sites and schemes were visited and, where necessary, further material on entries was gathered. We expected that a number of projects concerned with Cardiff Bay would be entered, but we were pleased to find these joined by a significant number of other entries spread throughout Wales. At the later stages of judging, we found ourselves concentrating our attention on a number of projects in west Wales.

The low energy factory at **Baglan Energy Park**, designed by Neath Port Talbot County Borough Council in association with the Welsh School of Architecture's Design Research Unit, was elegant and attractive. It impressed us as an example of how a quality, sustainable environment could be achieved in an industrial building.

A great deal of public art has been commissioned throughout Wales and we admired the work of CBAT (formerly Cardiff Bay Arts Trust) and Cywaith Cymru Artworks Wales in enabling and promoting the work of local and international artists. We celebrated the way that artists Mick Petts, Richard Harris and Michael Fairfax collaborated with the planners of Carmarthenshire County Council in the design of the **Llanelli Millennium Coastal Path** to create a major new conservation scheme, worthy to add to the more established coastal schemes of Pembrokeshire, Gower and Glamorgan.

We were disappointed that the prize attracted few entries for houses, although those that were entered were interesting and worthy. In particular, **Parc Bach**, Dominic Roberts and Robert Camlin's charming and distinctive small studio near Welshpool, shows a sympathetic use of materials and striking form in a sensitive rural setting.

Sean Curley's **Gwylfa Observatory**, a children's play space on a former building waste tip in south-east Rhyl is an imaginative, robust and quirky design where children are invited to view their environment differently and, hopefully, creatively.

Hidden away in Hafen Deg residential home for the elderly in Lampeter is Annemarie Schoene's **Secret Garden**. This small scale scheme illustrates how a dedicated group of volunteers can use recycled materials to enhance what would otherwise have been a drab environment - hopefully, an example that could inspire others.

Sadly, during this period, Wales lost probably its most important twentieth century building, the **Brynmawr Rubber Factory**. An entry for the prize, a series of photographs by Kiran Ridley, provided a poignant picture of this tragic ruin before its controversial destruction.

As judges, we were faced with a real difficulty in evaluating the art, architectural and landscape projects against the contributions of individuals who had been nominated for the prize.

Much as we admired the achievements of the individuals concerned, all of whom had produced outstanding work, we nevertheless felt that the first Dewi-Prys Thomas Prize should be awarded to a completed design project. We have recommended to the Trustees of the Dewi-Prys Thomas Trust that they might consider offering in future a separate prize recognising the work of individuals alongside the main award.

After discussion, three entries seemed to us to particularly address the concerns of the Dewi-Prys Thomas Prize, which are to recognise schemes which either improve the Welsh environment or our understanding of it.

Two of these, we should wish to commend particularly: ***La Scala***, a sculpture by Mark Pimlott which is set on the piazza of the University of Wales Aberystwyth, a masterly work that complements and enhances its dramatic setting; and ***Touchstone***, the polemical and informative magazine of the Royal Society of Architects Wales, edited by Patrick Hannay.

However, our unanimous choice as the winner of the first Dewi-Prys Thomas Prize is an outstanding and beautiful modern building, Foster and Partners' **Great Glasshouse** at Middleton, Carmarthenshire, a building which we thought to be of both national and international significance.

**Sunand Prasad**
**Judith Isherwood**
**Professor C Malcolm Parry**
**Jonathan Vining**

DCA RSAW



# Gwobr Dewi-Prys Thomas 2003

Yn dathlu dylunio da, a chariad at ddylunio da, yn yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru

# Tŷ Gwydr Mawr

Gardd Fotaneg Genedlaethol, Middleton

Mae Gwobr Dewi-Prys Thomas yn wobr ddwyflynyddol sy'n cydnabod pwysigrwydd dylunio da i safon byw, hunaniaeth ac adfywio Cymru.

Mae'r wobr newydd yn adeiladu ar waith Ymddiriedolaeth Dewi-Prys Thomas wrth ddathlu bywyd yr athro ysbrydoledig ac adfocad tros Gymru a thros yr amgylchedd Cymreig. Roedd Dewi-Prys, a fu farw ym 1985, yn poeni'n arw am Gymru a'r Amgylchedd Cymreig ac amcan y wobr yw adlewyrchu'r enaid angerddol ac ysbrydoledig hwn.








a | b | c

a. Tŷ Gwydr Mawr
b. *La Scala*
c. Cylchgrawn *Touchstone*

## **Enillydd** Y Tŷ Gwydr Mawr

**Roedd y beirniaid yn unfrydol yn rhoi gwobr gyntaf Dewi-Prys Thomas i'r Tŷ Gwydr Mawr yn Middleton gan Foster and Partners. Roeddent o'r farn bod apêl eang i'r adeilad, sy'n ganolbwynt Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, i'r cyhoedd a phobl broffesiynol fel ei gilydd. Mae'n urddasol ac yn gain, yn creu effaith ac yn ysgogi, yn symbylu, ond eto'n awenyddol ac yn lleddfol. Fel tŷ gwydr un bwa mwyaf y byd, mae iddo eisoes statws eiconaidd fel adeilad sy'n bwysig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.**

Mae gardd Neuadd Middleton o'r ddeunawfed ganrif, a fu'n segur unwaith, wedi ei hadfer gan Colvin & Moggridge ar gyfer dyfodol newydd cynaliadwy gyda ffurfiau newydd yn seiliedig ar gyd-destun lleol. Mae'r adeiladwaith hardd yn swatio'n deimladwy yn y tir fel bod ei ffurf geometrig gref yn atsain mynyddoedd twmpathog Sir Gaerfyrddin. Yn fewnol, mae'n cynnal addewid y ffurf allanol. Yma mae'r tirlun ar ffurf chwarel gan Gustafson Porter yn cynnal cynefinoedd y Canoldir fel gardd bleser i ymwelwyr cyffredinol a ffynhonnell astudiaeth i arbenigwyr.

Gyda'i gilydd, mae'r pensaer a'r peiriannydd adeiladau Anthony Hunt Associates wedi creu strwythur cain sy'n cwmpasu'r ardd mewn ffordd hynod syml. Mae pob bwa, er eu bod yn unffurf trwy doriad, o led ac aliniad gwahanol i gyd-fynd â chynllun hirgrwn cyffredinol yr adeilad. Mae defnyddio gosodiadau cyswllt pelen yn datrys yn daclus y broblem o gysylltu'r bwâu i'r muriau, sydd mewn colofnau cul ar y tu allan ac wedi'u hategu i'r tu mewni greu colofnres.

Mae'r manylder yn syml, yn uniongyrchol ac yn gelfydd. Mae'r lleoedd atodol nad oes angen golau naturiol arnynt, fel y mannau arddangos a'r toiledau, wedi eu gosod o dan y muriau allanol fel nad ydynt yn ymyrryd â gofod cynnil y dôm sydd wedi ei lenwi â goleuni.

Mae'r tîm cynllunio wedi gweithio gyda medr ag osgo, gan integreiddio pensaernïaeth, peirianneg a thirlun, i greu tŷ gwydr modern sy'n mynd â thraddodiad gwych Paxton i ganrif arall.

## Cymeradwyaeth

### *La Scala*

**Creodd yr artist Mark Pimlott a'r peiriannydd, y diweddar Nick Hanika, y prosiect hwn ym man cyfarfod cerflunio a phensaernïaeth yn sgwâr Prifysgol Cymru, Aberystwyth, mewn ymateb i gomisiwn gan Ganolfan y Celfyddydau, Aberystwyth.**

Gellir defnyddio *La Scala*, grisiau enfawr sy'n gwyro tuag at y môr, mewn sawl ffordd wahanol - llwyfan golygfa, amffitheatr, loggia a man cyfarfod.

Mae'r beirniaid yn cymeradwyo'r ffordd y mae'r strwythur yn rhoi bywyd newydd i ofod cyhoeddus a chyfres o adeiladau (Llyfrgell ac Undeb Myfyrwyr Sir Percy Thomas a Chanolfan y Celfyddydau Dale Owen) y mae eu hoptimistiaeth a'u hysblander yn cael eu hadlewyrchu yn y grisiau gyda ffraethineb ag osgo.

Mae *La Scala* yn defnyddio sawl traddodiad, gan gynnwys sgwariau cyhoeddus mawr y dadeni - wedi eu cyflwyno'n berswadiol gan yn cynllunydd yn ei gynnig. Ond mae'r strwythur hefyd yn cyffwrdd ar draddodiadau Cymreig - mae'r 'cwtsh dan stâr' wedi cael bywyd hefyd - fel bar difyfyr.

Mae *La Scala* yn dangos y ffordd y gall prosiectau sydd wedi eu creu a'u cyflawni'n wych ymestyn dros faes pensaernïaeth a chelfyddyd gyhoeddus - gan gwblhau lle pwysig yn amgylchedd adeiledig Cymru a ffurfio hunaniaeth unigryw.

### Cylchgrawn *Touchstone*

**Roedd y beirniaid yn cytuno, ers ei gychwyn ym 1996, bod *Touchstone*, cylchgrawn Cymdeithas Frenhinol Penseiri Cymru ar gyfer pensaernïaeth yng Nghymru, wedi gwneud cyfraniad sylweddol i hybu cynllunio gwell a deall pensaernïaeth a'r amgylchedd yn well.**

Hyd yn hyn, mae'r golygydd, Patrick Hannay a'i dîm ymroddgar wedi cynhyrchu deuddeg rhifyn i safon gyson wych, ond ar gyllideb fechan bob tro, heb lawer o hysbysebu amlwg. Er bod y cylchgrawn yn hyrwyddo pensaernïaeth, ni fu erioed yn gyfrwng marchnata i'r proffesiwn. Ni fu gan *Touchstone* erioed ofn mynd i'r afael â materion cymdeithasol a gwleidyddol ehangach mewn ffordd sydd wedi ysgogi trafodaeth ac sydd wedi caniatáu deall amgylchedd Cymru yn well.

Mae safon uchel ei newyddiaduraeth a'i ddadansoddi beirniadol yn cyd-fynd â'r graffeg gwych. Yn aml, esbonnir prosiectau trwy gyfrwng lluniau a ffotograffau darbodus a chain - yn well na llawer o gyfnodolion eraill sydd â mwy o le ac adnoddau. Mae *Touchstone* yn gylchgrawn pensaernïaeth rhanbarthol ac yn ddieithriad mae'n berthnasol, yn llythrennog a dylai unrhyw un sy'n ymwneud ag amgylchedd Cymru ei ddarllen.







ch | d | dd

ch. Parc Bach
d. Parc Ynni Baglan
dd. Hafan Deg

## **Adroddiad y** beirniaid

**Denodd Gwobr gyntaf Dewi-Prys Thomas amrywiaeth trawiadol o bedwar deg dau o ymgeiswyr, pob un ohonynt yn dangos bod dylunio yn bwysig iawn i amgylchedd Cymru.**

Roedd yr ymgeiswyr yn amrywio o brosiectau yn ymwneud â thirlun, celfyddyd gyhoeddus a phensaernïaeth i newyddiaduraeth, ysgrifennu a chyfraniad unigolion. Fel beirniaid, rhoesom yr ymgeiswyr mewn grwpiau er mwyn i ni allu cymharu ymgeiswyr tebyg cyn ymgymryd â'r dasg o ddewis enillydd cyffredinol.

Lle'r oedd hynny'n bosibl, ymwelwyd â safleoedd a chynlluniau, a phan oedd angen, casglwyd mwy o ddeunydd ar yr ymgeiswyr. Roeddwn yn disgwyl sawl ymgeisydd yn ymwneud â Bae Caerdydd, ond roeddwn yn falch canfod bod nifer sylweddol o ymgeiswyr eraill ledled Cymru. Yn ystod cyfnod olaf y beirniadu, gwelsom ein bod yn canolbwyntio ar nifer o brosiectau yng ngorllewin Cymru.

Roedd y ffatri ynni isel ym **Mharc Ynni Baglan**, a gynlluniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot mewn cydweithrediad ag Uned Gynllunio Ysgol Bensaernïaeth Cymru, yn gain ac yn ddeniadol. Cawsom ein cyfareddu gan enghraifft o'r ffordd y gellid creu amgylchedd cynaliadwy o ansawdd mewn adeilad diwydiannol.

Comisiynwyd llawer iawn o gelfyddyd gyhoeddus ledled Cymru ac edmygwyd gwaith CBAT (Ymddiriedolaeth Celfyddydau Bae Caerdydd gynt) a Cywaith Cymru Artworks Wales wrth alluogi a hyrwyddo gwaith artistiaid lleol a chenedlaethol. Dathlwyd y ffordd y gwnaeth yr artistiaid Mick Petts, Richard Harris a Michael Fairfax gydweithredu â chynllunwyr Cyngor Sir Gaerfyrddin wrth gynllunio **Llwybr Arfordirol y Mileniwm** yn Llanelli i greu cynllun gwarchod mawr newydd, sy'n haeddu cael ei ychwanegu at gynlluniau arfordirol mwy sefydledig Sir Benfro, Gŵyr a Morgannwg.

Cawsom ein siomi nad oedd y wobr wedi denu llawer o ymgeiswyr ar gyfer tai, er bod y rhai wnaeth gyflwyno cais yn ddiddorol ac yn haeddiannol. Yn arbennig, mae **Parc Bach**, stiwdio fach gyfareddol a neilltuol Dominic Roberts a Robert Camlin ger y Trallwng, yn dangos defnydd sympathetig o ddeunyddiau a ffurf drawiadol mewn safle gwledig sensitif.

Mae **Gwylfa Observatory** Sean Curley, man chwarae i blant ar fan gollwng sbwriel adeiladu gynt yn ne ddwyrain y Rhyl yn gynllun cadarn, unigryw, llawn dychymyg lle y gwahoddir plant i edrych mewn ffordd wahanol a chreadigol, gobeithio, ar eu hamgylchedd.

Mae **Gardd Ddirgel** Annemarie Schoene wedi ei chuddio yng nghartref preswyl Hafan Deg i bobl oedrannus yn Llanbedr Pont Steffan. Mae'r cynllun bach hwn yn dangos sut y gall grŵp ymroddgar o wirfoddolwyr ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu i wella'r hyn a fyddai fel arall yn amgylchedd di-liw - enghraifft, gobeithio, a allai ysbrydoli eraill.

Yn anffodus, yn ystod y cyfnod hwn, collodd Cymru un o'i adeiladau pwysicaf o'r ugeinfed ganrif, **Ffatri Rwber Brynmawr**. Mae ymgeisydd ar gyfer y wobr hon, cyfres o ffotograffau gan Kiran Ridley, yn rhoi darlun ingol o'r adfail trasig hwn cyn ei ddymchweliad dadleuol.

Fel beirniaid, cawsom anhawster mawr yn gwerthuso'r prosiectau celf, pensaernïol a thirlun yn erbyn cyfraniadau unigolion a enwebwyd ar gyfer y wobr.

Er cymaint ein hedmygedd tuag at gyflawniadau'r unigolion, pob un ohonynt wedi creu gwaith eithriadol, roeddwn yn teimlo y dylid rhoi Gwobr gyntaf Dewi-Prys Thomas Prize i brosiect cynllunio wedi'i gwblhau. Rydym wedi argymell i Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Dewi-Prys Thomas y dylent ystyried cynnig gwobrau ar wahân yn y dyfodol yn cydnabod gwaith unigolion ynghyd â'r brif wobr.

Ar ôl trafodaeth, ymddengys bod tri ymgeisydd yn mynd i'r afael yn arbennig â nodweddion Gwobr Dewi-Prys Thomas, sef cydnabod cynlluniau sydd naill ai'n gwella amgylchedd Cymru neu ein dealltwriaeth ohono.

Hoffwn ganmol dau o'r rhain yn arbennig: ***La Scala***, cerflun gan Mark Pimlott wedi'i osod ar sgwâr Prifysgol Cymru Aberystwyth, gwaith meistrolgar sy'n ategu ac yn gwella'i safle dramatig; a ***Touchstone***, cylchgrawn dadleuol llawn gwybodaeth Cymdeithas Frenhinol Penseiri Cymru, a olygir gan Patrick Hannay.

Fodd bynnag, ein dewis unfrydol fel enillydd Gwobr gyntaf Dewi-Prys Thomas yw adeilad modern hardd Foster and Partners, y **Tŷ Gwydr Mawr** yn Middleton, Sir Gaerfyrddin, adeilad sydd, yn ein barn ni, yn bwysig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

**Sunand Prasad**
**Judith Isherwood**
**Professor C Malcolm Parry**
**Jonathan Vining**

DCA · DESIGN COMMISSION FOR WALES / COMISIWN DYLUNIO CYMRU · RSAW